# Archwiliad i Asesu Effeithiolrwydd Cofnodi, Monitro a Dysgu o Weithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd y Bwrdd Cyflawnder Ieuenctid a Gweithdrefnau Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd

**Cyhoeddwyd Mehefin 2015**

© Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Ble rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd o'r deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch y sawl a gymerodd ran yn yr archwiliad hwn; heb eu cydweithrediad, ni fyddai'r archwiliad wedi bod yn bosib.

Hoffem ddiolch, yn arbennig, i staff a rheolwyr y Timau Troseddau Ieuenctid a ymwelwyd â hwy ac uwch reolwyr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

| | |
|---|---|
| **Prif Arolygydd Ei Mawrhydi** | Helen Davies |
| **Arolygydd Ei Mawrhydi** | Jane Attwood<br>Ann Hickey, *Lleoliad Tymor Byr* |
| **Gwasanaethau Cymorth** | Pippa Bennett, *Rheolwr Gwasanaethau Cymorth*<br>Adam Harvey, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth*<br>Lynne Osborn, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth*<br>Alex Pentecost, *Rheolwr Cyfathrebu* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol Ei Mawrhydi** | Andy Smith |

## Rhagair

Mae gweithio gyda phlant mewn Timau Troseddau Ieuenctid yn her i weithwyr ar y rheng flaen ac i reolwyr, ac mae cymhlethdod a gofynion nifer o achosion yn aml yn cael eu hamcangyfrif yn rhy isel. Gall arfer da gael ei gymryd yn ganiataol ac mae'n aml yn digwydd heb i neb sylwi. Fodd bynnag, pan mae pethau yn mynd o'i le, cyfrifoldeb yr arweinwyr yw sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn archwilio pa mor dda mae'r system a sefydlwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio o ran sicrhau bod y gwersi hyn yn cael eu dysgu pan fo digwyddiad difrifol, yn ymwneud â diogelu neu amddiffyn y cyhoedd, wedi digwydd yn cynnwys plentyn sy'n hysbys i Dîm Troseddau Ieuenctid.

Fe ddarganfuom, er bod amcanion da, nid oedd y dulliau gweithredu wedi hwyluso lefel ddigonol o ddysgu lleol a chenedlaethol. Roedd angen mwy o waith i gyflawni dysgu ystyrlon er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiadau difrifol bellach. Roedd peidio ag adnabod y dysgu cywir yn golygu na fod y gweithrediadau cywir yn cael eu hadnabod ac nid oedd hyn yn cael ei adnabod yn ystod sicrhau ansawdd da'r broses. Roedd yn fater o bryder mawr na fod y system rheoli gwybodaeth a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro'r prosesau ddim yn gweithio fel y dylai ac roedd hyn yn arwain at lefelau uchel o rwystredigaeth ac amser wast.

Er mewn nifer o achosion, roedd gweithrediadau yn sgil adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol yn canolbwyntio ormod ar bryderon gweithredol o ddydd i ddydd a ddim yn hybu newid systemig, fe welsom rhai esiamplau o arfer addawol. Roedd hyn yn cynnwys cael ôl-drafodaeth sensitif gyda staff a'r defnydd o adolygwyr allanol i helpu sicrhau bod adolygiadau yn deg. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith yma yn cael ei gefnogi gan ledaeniad canfyddiadau crynswth o'r ganolfan.

Efallai mai'r prif faes i'w gwella yw ymestyn cwmpas yr adolygiadau. Yn fwyfwy, mae'r adolygiad yn adolygiad un asiantaeth (Tîm Troseddau Ieuenctid) o achos amlasiantaeth a gan hynny mae'n methu â chyflawni'r newidiadau gofynnol ar gyfer yr holl asiantaethau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Rydym yn cydnabod bod y gweithdrefnau sydd yn eu lle yn adlewyrchu'r ffaith na fod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gyfrifol am reolaeth weithredol Timau Troseddau Ieuenctid o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi symud o safle o sicrhau ansawdd adolygiadau ac, yn gyffredinol, nid oedd hyn wedi cael ei drosglwyddo i drefniadau partneriaeth lleol fel y bwriadwyd ac roedd hyn yn creu bwlch sylweddol. Tra'u bod yn weddol brin, mae digwyddiadau difrifol yn ymwneud â diogelu neu amddiffyn y cyhoedd yn gallu cael goblygiadau trychinebus i bawb ynghlwm. Gan hynny, mae'n hollbwysig bod dysgu go iawn yn digwydd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u bwriadu i helpu cyflawni hyn.



**Paul Wilson CBE**
**Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi**

**Mehefin 2015**

## Cynnwys


Tudalen

**Diolchiadau** **3**

**Rhagair** **4**

**Crynodeb o'r Canfyddiadau** **6**

**Argymhellion** **8**

**1. Gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn y cyhoedd: crynodeb** **10**

**2. Diben yr archwiliad, cwmpas a methodoleg** **12**

**3. Ein canfyddiadau** **14**

**4. Dysgu cenedlaethol a lleol** **26**

**Rôl yr arolygiaeth a chôd ymarfer** **29**

## Crynodeb o'r Canfyddiadau

Mae Gweithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd a Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn rheoli sut, a phryd, mae Timau Troseddau Ieuenctid (YOTs) yn cofnodi digwyddiadau diogelu ac amddiffyn y cyhoedd a'r gefnogaeth gallant ddisgwyl derbyn fel rhan o hynny. Yn fwyfwy, mae YOTs yn gweithio gyda charfan fach o blant cymhleth a bregus iawn ; pan mae pethau yn mynd o'i le ac mae'r plentyn neu'r cyhoedd ehangach yn cael ei niweidio, mae'n hanfodol bod gwersi yn cael eu dysgu o'r hyn ddigwyddodd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto. Gallai methiant i wneud hynny arwain at ddigwyddiadau difrifol bellach a difrod sylweddol i enw da'r sefydliadau ynghlwm. Mae'n gywir bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn darparu arweiniad yn y maes arfer pwysig hwn.

Diben yr archwiliad oedd asesu effeithiolrwydd cofnodi, monitro a dysgu o Weithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd a Gweithdrefnau Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd. Ymwelom â 19 YOTs i asesu ansawdd sampl o 30 Adroddiad Dysgu Hanfodol y'u cwblhawyd mewn ymateb i ddigwyddiadau difrifol a ddigwyddodd dros gyfnod o 4 mis yn 2014. Hefyd fe gyfwelom â rheolwyr Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid a YOTs allweddol.

Yn gyffredinol, roedd y YOTs yn ein sampl yn gallu adnabod achosion cymwys a chyfeirio'n briodol at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd y mwyafrif wedi rhoi llawer o ymdrech i mewn i'r gwaith yma ac fe welsom rhai arferion addawol. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i gyflawni dysgu ystyrlon. Yn rhy aml, roedd adolygiadau dysgu wedi methu ag ymgorffori agweddau o ymddygiad a phrofiadau bywyd y plentyn allai fod wedi helpu esbonio pam roedd y digwyddiadau difrifol wedi digwydd. Ar ben hyn, nid oedd adolygiadau dysgu bob tro'n adnabod y gwersi cywir i'w dysgu, a allai hyn arwain at weithrediad priodol i wella arfer. Yn aml nid oedd goruchwyliaeth leol a threfniadau sicrhau ansawdd wedi bod yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â hyn. Roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi penderfynu, wrth ddatblygu'r system, i beidio â chynnwys dull o sicrhau ei hun o ansawdd adolygiad y dysgu a'r adroddiad a gyflwynir iddynt.

Mae Gweithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd a Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd yn gofyn bod yr Adroddiad Dysgu Hanfodol yn canolbwyntio ar ddysgu di-oed dan arweiniad y YOT. Tra bod manteision i'r model hwn, roedd cyfran fawr o'r achosion yn ein sampl yn hysbys i fwy nag un asiantaeth. Nid oedd hyn yn syndod o ystyried proffil y plant dan sylw. Tra byddai YOTs yn aml yn adnabod dysgu yn berthnasol i asiantaethau eraill, nid oeddent yn teimlo'n bod ganddynt yr awdurdod i ddrafftio gweithrediadau a oedd yn berthnasol i waith neu ddulliau gweithredu gwasanaethau eraill. Roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol o gynnal adolygiad un asiantaeth ar achos amlasiantaeth ac roedd yn arbennig o amlwg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal[1]. Yn anaml roedd adolygiad dysgu eang mwy priodol yn digwydd a golyga hyn bod materion pwysig yn gysylltiedig â'r digwyddiad difrifol ddim yn cael eu hymdrin bob tro.

Nid yw system rheoli gwybodaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a sefydlwyd i ddal a monitro digwyddiadau difrifol yn gweithio fel y dylai ac mae'n arwain at lefelau uchel o rwystredigaeth ac amser wast i bawb ynghlwm. Mae'r Adroddiad Dysgu Hanfodol yn ddarn pwysig o waith i YOTs ac, fel y dylent, maen nhw'n disgwyl derbyn

[1] Plentyn/Plant sy'n Derbyn Gofal - term a ddefnyddir i adnabod plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gwasanaethau gofal a lles gan yr awdurdod lleol.

adroddiad blynyddol ar dueddiadau cenedlaethol, arfer da a dysgu. Nid oedd hyn wedi digwydd ers lansio Gweithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd a Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd ym mis Ebrill 2013, er roedd rhai dulliau eraill wedi cael eu defnyddio i rannu dysgu gyda YOTs.

## Argymhellion

### Dylai Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid:

1. yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, ac mewn ymgynghoriad â'r YOTs, adolygu ei Gweithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd a Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd, yn benodol i gynnwys y canlynol:
    a. cyfarwyddyd i YOTs ar y ffordd orau o ddysgu o ddigwyddiadau difrifol pan mae mwy nag un asiantaeth ynghlwm a sut i ymgorffori dysgu yn lleol. Dylai hyn gynnwys esiampl o Adroddiad Dysgu Hanfodol **(gweler pennod 3 Dysgu)**
    b. cyfarwyddyd cliriach i YOTs yn arwain Adolygiadau Dysgu Hanfodol yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys yr angen i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn yr adolygiad, amserlen adrodd fwy hyblyg a manteision Adolygiad Dysgu Estynedig **(gweler pennod 3 Plant sy'n Derbyn Gofal)**
    c. cyfarwyddyd i Fyrddau Rheoli YOTs a Byrddau Lleol Diogelu Plant ar sut i gefnogi a herio YOTs trwy'r broses hwn **(gweler pennod 4 Dysgu Lleol)**
2. gynnal samplu achlysurol ar ansawdd Adroddiadau Dysgu Hanfodol, gan gynnwys adolygu cofnod yr achos a chyfweld â staff a rheolwyr. Wedi hynny, darparu adborth ysgrifenedig **(gweler pennod 4 Dysgu Cenedlaethol)**
3. sicrhau bod y systemau gwybodaeth y'u defnyddir i gofnodi digwyddiadau difrifol, monitro adroddiadau a rhoi cynlluniau ar waith yn gallu gwneud hynny'n effeithiol **(gweler pennod 3 Adnabod a Hysbysu)**
4. gyhoeddi adroddiad yn tynnu ynghyd tueddiadau allweddol, gwersi a ddysgwyd ac arfer addawol ac adnabuwyd ers lansio Gweithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd a Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd **(gweler pennod 4 Dysgu Cenedlaethol)**.

### Dylai Cadeiryddion Byrddau Rheoli Timau Troseddau Ieuenctid:

5. sicrhau bod asiantaethau partner yn cyfrannu at Adolygiadau Dysgu Hanfodol ar y plant y maen nhw'n darparu gwasanaeth iddynt **(gweler pennod 3 Dysgu, Plant sy'n Derbyn Gofal)**
6. ddwyn pob asiantaeth berthnasol i gyfrif o ran cwblhau gweithrediadau a wnaethpwyd mewn Adroddiadau Dysgu Hanfodol **(gweler pennod 3 Gweithrediadau)**
7. sicrhau bod archwiliad annibynnol o Adroddiadau Dysgu Hanfodol a, ble fo angen, enwebu aelod o'r Bwrdd Rheoli i ymgymryd â'r rôl hon **(gweler pennod 4 Dysgu Lleol)**.

### Dylai rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid:

8. gyfeirio pob digwyddiad difrifol i Fwrdd Rheoli'r YOT a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, ynghyd ag adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gwersi a ddysgwyd a chynnydd yn erbyn gweithrediadau a gytunwyd arnynt **(gweler pennod 4 Dysgu Lleol)**

9. ble dynodwyd gan yr achos, gwahodd asiantaethau partner i gymryd rhan mewn Adolygiadau Dysgu Hanfodol a chynnwys dysgu a gweithrediadau iddynt o fewn Adroddiadau Dysgu Hanfodol **(gweler pennod 3 Dysgu)**
10. pennu Adroddiadau Dysgu Hanfodol i reolwyr gyda rhywfaint o annibyniaeth o'r achos sy'n cael ei adolygu a'u cefnogi i adnabod gweithrediadau gweithredol a strategol **(gweler pennod 3 Sicrhau Ansawdd, Gweithrediadau)**
11. sicrhau bod ansawdd pob Adroddiad Dysgu Hanfodol yn cael ei sicrhau yn drylwyr, gan uwch reolwr ag annibyniaeth ddigonol sydd hefyd wedi adolygu cofnod yr achos, cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid **(gweler pennod 3 Sicrhau Ansawdd)**
12. wneud mwy o ddefnydd o'r Adolygiad Dysgu Estynedig mewn achosion ble mae mwy nag un asiantaeth ynghlwm ac yn arbennig ar gyfer digwyddiadau difrifol sy'n cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal **(gweler pennod 3 Dysgu, Plant sy'n Derbyn Gofal)**.

# 1. Gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn y cyhoedd: crynodeb

1.1. O dan Withdrefnau Diogelu'r Cyhoedd a Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd (CSPPI) y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB), lansiwyd ym mis Ebrill 2013, mae'n ofynnol i YOTs hysbysu'r YJB a chydymffurfio â gofynion cofnodi penodol[2] ar gyfer dau gategori o 'ddigwyddiad difrifol'. Gellir disgrifio'r digwyddiadau hyn fel digwyddiadau arwyddocaol naill ai mewn cysylltiad â diogelu plant (mae'r plentyn wedi cael ei niweidio yn ddifrifol) neu ddigwyddiadau yn ymwneud ag amddiffyn y cyhoedd (mae'r plentyn wedi cael ei gyhuddo o drosedd penodol gan achosi niwed difrifol i'r cyhoedd). Dylai hysbysiadau ddigwydd pan fod gan y YOT, neu pan ei fod wedi cael yn ddiweddar, gyfrifoldeb statudol dros y plentyn, er enghraifft trwy orchymyn llys neu drwy waith ar rhybudd heddlu. Mae gweithdrefn CSPPI yn gwneud darpariaethau ar gyfer cofnodion gorfodol a dewisol fel a ddangosir isod:

## Cofnodion gorfodol

| Diogelu'r Person Ifanc ble mae'r canlynol wedi digwydd: | Amddiffyn y Cyhoedd Cyhuddo'r person ifanc o: |
|---|---|
| Marwolaeth person ifanc | Llofruddiaeth/Dynladdiad |
| Ymgais i lladd ei hun | Treisio |
| Dioddefwr trais (gwneud cyhuddiad ffurfiol i'r heddlu) | Trosedd difrifol pellach MAPPA[3] pan mae'r person ifanc eisoes yn destun MAPPA |

## Cofnodion dewisol

| Diogelu'r Person Ifanc ble mae'r canlynol wedi digwydd: | Amddiffyn y Cyhoedd Cyhuddo'r person ifanc o: |
|---|---|
| Dioddefwr camdriniaeth rywiol/ camfanteisio | Trosedd sy'n cwympo o fewn categori trosedd difrifol MAPPA |
| Dioddefwr camdriniaeth corfforol/emosiynol difrifol | |
| Hunan-niwed difrifol | |

1.2. Nid yw plant sydd ar raglenni atal y'u gweithredir gan y YOT o dan oruchwyliaeth statudol, ond os yw'r YOT yn teimlo y gellid dysgu ohonynt pe byddent yn cyfrannu, mae'r opsiwn o hysbysiad dewisol ar gael. Mae system cofnodi ar wahân yn bodoli ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd o fewn yr ystad ddiogel ac nid yw'r llunio rhan o'r archwiliad hwn.

## Sut i hysbysu'r YJB

[2] Uned Gweinyddu Grantiau y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014) *Grant Arfer Da Cyfiawnder Ieuenctid: Telerau ac Amodau Grant Arfer Da Cyfiawnder Ieuenctid 2014-15.*
[3] Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) – asiantaethau prawf, yr heddlu, y carchar ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sydd â risg uwch o niweidio eraill

1.3. Mae hysbysu am a chofnodi digwyddiadau difrifol yn cael ei wneud yn ddiogel yn electronig trwy System Rheoli Gwybodaeth Cyfiawnder Ieuenctid (YJMIS). Mae YOTs yn derbyn ebost o gydnabyddiaeth ac enw cyswllt yn eu hardal fusnes YJB lleol/YJB Cymru (adran yr YJB yng Nghymru) gyda phwy allant drafod yr achos.

## Adolygiadau Dysgu Hanfodol

1.4. Pan mae hysbysiad yn cael ei wneud i'r YJB mae gofyn i'r YOT gwblhau Adolygiad Dysgu Hanfodol a chyflwyno Adroddiad Dysgu Hanfodol o fewn deng niwrnod gwaith o'r hysbysiad. Mae'r YJB yn darparu templed i wneud hyn. Y diben yw cofnodi dysgu di-oed dan arweiniad y YOT o ddigwyddiad. Disgwylir i'r Adolygiad Dysgu Hanfodol fod yn gryno a gweithredu fel sbardun am drafodaeth a dadansoddiad pellach yn ogystal â chofnodi unrhyw weithrediadau sydd eu hangen ar frys. Nid yw'n fwriad ei defnyddio yn lle Adolygiad Dysgu Estynedig, neu unrhyw adolygiad mwy manwl arall sy'n ceisio deall y materion systemig allai fod wedi cyfrannu at y problemau yn yr achos.

## Rôl y YJB

1.5. Bydd pob digwyddiad sy'n cael ei gofnodi yn cael ei glustnodi i un aelod o staff y YJB wedi'i leoli yn ardal fusnes berthnasol y YJB yn Lloegr neu YJB Cymru. Ei rôl yw darparu cyngor ble fo angen, a gweithio gyda YOTs i ystyried y camau priodol er mwyn adolygu a dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd. Mae'r YJB hefyd yn gyfrifol am fod yn ymwybodol am unrhyw ddysgu a adnabuwyd yn genedlaethol a rhaeadru unrhyw arfer effeithiol. Nid yw'r YJB yn darparu sicrwydd ansawdd ar gyfer yr Adroddiad Dysgu Hanfodol nac yn adolygu'r achos. Mae hyn yn wyriad oddi wrth broses blaenorol ar gyfer 'Digwyddiadau Difrifol yn y Gymuned'[4] a oedd yn gweithredu rhwng 2005-2013 a oedd yn cynnwys y YJB wrth sicrhau ansawdd adroddiad y YOT.

1.6. Roedd y broses newydd yn rhannol yn seiliedig ar adborth gan YOTs am anhyblygrwydd cymharol y system flaenorol, a'r diffyg rhyngweithiad gyda threfniadau lleol. Roedd ymgais Llywodraeth y DU i leihau gofynion monitro a chofnodi canoledig hefyd yn ffactor. Y nod yw ymddiried yn ardaloedd lleol i reoli'u perfformiad eu hun a darparu sicrwydd ansawdd ar gyfer eu gwaith eu hun. Rhagwelwyd y byddai gweithdrefnau newydd CSPPI yn darparu cofnodion mwy cyson, dulliau casglu data mwy diogel a gwell dysgu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cefnogwyd y broses o roi'r weithdrefn newydd ar waith gan ddigwyddiadau briffio ym mhob ardal fusnes y YJB yn Lloegr a YJB Cymru.

---

[4] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2005) *Digwyddiadau Difrifol - Polisi a Chyfarwyddyd ar Adolygu Digwyddiadau Difrifol*

## 2. Diben yr archwiliad, cwmpas a methodoleg

2.1. Diben ein harchwiliad oedd cael asesiad cynnar o effeithiolrwydd gweithdrefnau'r YJB sy'n bodoli i helpu YOTs ddysgu o achosion ble mae pethau 'wedi mynd o'i le'. Roedd ein bwriad i archwilio'r agwedd hwn o arfer mewn YOTs yn adlewyrchu'r trefniadau hirsefydlog roedd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr; tra bod ein harolygwr gyda phrif gyfrifoldeb dros ddiogelwch cyhoeddus yn darparu rôl sicrhau ansawdd fel rhan o adolygiad mewnol yr asiantaeth honno o achosion ble roedd troseddwr sy'n oedolyn yn destun goruchwyliaeth brawf wedi mynd ymlaen i gyflawni Trosedd Difrifol Bellach[5].

2.2. Cynhaliwyd ein harchwiliad mewn tri cham:

### Cam un: adolygiad desg

Yn ystod y cam cyntaf, fe gynhaliodd yr arolygwyr adolygiad desg o ansawdd sampl o 30 hysbysiad digwyddiad difrifol a'r Adroddiadau Dysgu Hanfodol amdanynt a ddarparwyd gan y YJB. Fe wnaethpwyd hyn heb y budd o edrych ar gofnodion achos y YOT na chyfweld â'r rheolwr YOT perthnasol. Ni chafodd yr arolygwyr hi'n hawdd beirniadu ansawdd yr Adroddiad Dysgu Hanfodol heb fynediad ar y cofnodion achos. Fodd bynnag, yn unol â'r ymgyrch i annog sicrhau ansawdd ar lefel leol, dyma'r sefyllfa sydd ohoni pan mae staff y YJB yn derbyn ac yn cymeradwyo Adroddiadau Dysgu Hanfodol.

### Cam dau: adolygiad llawn

Roedd yr ail gam yn cynnwys ymweld â'r YOT perthnasol i archwilio'u cofnodion achos i weld a oeddent yn cefnogi cynnwys yr Adroddiad Dysgu Hanfodol. Yna, fe gynhaliom gyfarfod ar y cyd gyda Rheolwr y YOT a Chadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOT. Ymhlith y themâu y'u hymchwiliwyd:

- a adnabuwyd y dysgu cywir
- a oedd y gweithrediadau a oedd yn eu lle yn llifo o'r dysgu a adnabuwyd?
- cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y gweithrediadau a gytunwyd arnynt
- y trefniadau yn eu lle i sicrhau ansawdd yr Adroddiad Dysgu Hanfodol
- sut mae'r canfyddiadau yn cael eu rhannu a pha wersi sydd wedi cael eu dysgu
- trefniadau lleol ar gyfer cofnodi a dysgu oddi wrth ddigwyddiadau difrifol.

Yna, fe gyfwelom â phenaethiaid ardaloedd busnes y YJB/YJB Cymru gyda chyfrifoldeb dros berfformiad a gwelliant y YOTs yr ymwelwyd â hwy, i weld sut roeddent yn cynghori ac yn cefnogi YOTs trwy'r broses yma.

### Cam tri: y darlun cenedlaethol

Yn dilyn ein hymweliadau â'r YOTs a chyfarfodydd gyda phenaethiaid ardaloedd busnes YJB/YJB Cymru, cynhaliwyd cyfarfod gydag uwch reolwyr y YJB gyda chyfrifoldeb dros y broses CSPPI. Diben y cyfarfod oedd ystyried sut mae'r YJB yn

---

[5] Trosedd Difrifol Bellach – pan mae troseddwr yn cael ei gyhuddo o drosedd y'u clustnodir yn drosedd rhywiol neu dreisgar difrifol, mae'r gwasanaethau prawf yn cynnal archwiliad ac yn adolygu rheolaeth yr achos.

monitro effeithiolrwydd y dulliau ac yn rhannu'r canfyddiadau a'r dysgu o'r CSPPI yn genedlaethol.

### Sampl yr arolygiad

2.3. Dewiswyd trideg Adroddiad Dysgu Hanfodol i'r YJB ar ddigwyddiadau difrifol a ddigwyddodd rhwng 01 Ionawr 2014 a 30 Ebrill 2014 o restr hir o bumdeg naw achos. Roedd dau draean o'n sampl yn ymwneud â digwyddiadau diogelu ac un traean â digwyddiadau amddiffyn y cyhoedd, cyfran debyg i gyfanswm blynyddol y YJB yn ystod 2013-2014. O fewn ein sampl, roedd hysbysiadau wedi cael eu gwneud o dan y categorïau canlynol:

- Diogelu (gorfodol): 16 achos, o'r rheini roedd 14 yn ymgais i ladd eu hunain a 2 yn ymwneud â marwolaeth person ifanc
- Diogelu (dewisol): 4 achos gan gynnwys hunan-niweidio/ymddygiad di-hid, risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a dioddefwr anaf
- Amddiffyn y cyhoedd (gorfodol): 9 achos, o'r rheini roedd 3 wedi cael eu cyhuddo o lofruddiaeth/dynladdiad, 4 wedi'u cyhuddo o dreisio, 1 o weithgaredd rhywiol gyda pherson 15 mlwydd oed ac 1 o feddu ar arf ffug ac ymosodiad (roedd y 2 yn gymwys ar gyfer cofnodi gorfodol oherwydd eu bod wedi cyflawni'r troseddau tra roeddent yn destun MAPPA)
- Amddiffyn y cyhoedd (dewisol): 1 achos gyda chyhuddiad o drosedd yn ymwneud ag arf.

2.4. Roedd dau achos yn y sampl yn cael eu rheoli ar Lefel 1 (yr isaf o dri lefel) o fewn MAPPA yn lleol. Roedd achos arall yn bodloni'r meini prawf ar gyfer MAPPA ond nid oedd wedi cael ei adnabod fel achos a oedd yn berthnasol cyn i'r digwyddiad difrifol ddigwydd. Nid oedd unrhyw un o'r achosion yn gymwys am Adolygiad Achos Difrifol MAPPA gorfodol.

2.5. Un achos yn unig yn ein sampl oedd hefyd wedi cwblhau Adolygiad Dysgu Estynedig. Oherwydd amlder isel Adolygiadau Dysgu Estynedig yn ein sampl a hefyd yn fwy cyffredinol (saith yng nghyfnod cofnodi 2013-2014) fe gyfyngom ein harchwiliad i effeithiolrwydd Adroddiadau Dysgu Hanfodol.

### Nodweddion yr achosion

2.6. Roedd gan yr unigolion yn sampl ein hachos y nodweddion canlynol:

- 22 gwryw
- 8 benyw
- 20 Gwyn Prydeinig
- 14 Plentyn sy'n Derbyn Gofal (gyda 5 wedi'u gosod i ffwrdd o'u hardal gartref)
- 3 yn destun wrandawiad cyn llys
- 24 wedi'u dedfrydu i wrandawiad cymunedol
- 3 wedi derbyn dedfrydau gwarchodol.

2.7. Cynhaliwyd archwiliad peilot byr yn Kent yn dilyn archwiliadau mewn detholiad o YOTs o bum ardal fusnes YJB yn Lloegr yn ogystal â YJB Cymru. Ymwelwyd â

chyfanswm o 19 YOT, sef Birmingham, Swydd Buckingham, Caerdydd, Darlington, Doncaster, Ealing, East Sussex, Essex, Hackney, Hampshire, Manceinion, Castell Nedd Port Talbot (bellach yn rhan o Fae’r Gorllewin), Sefton, South Tees, South Tyneside, Swydd Stafford, Surrey, Wandsworth a Wigan.

# 3. Ein canfyddiadau

## Adnabod ac hysbysu

3.1. Yn 2013-2014, roedd 95 o'r 158 YOT (60%) wedi cofnodi o leiaf un digwyddiad difrifol. Does dim dulliau dibynadwy i'r YJB wybod a yw YOTs yn adnabod ac yn hysbysu pob digwyddiad sy'n gymwys. Yn ddiweddar, roedd y YJB wedi, fel rhan o adolygiad mewnol, croesgyfeirio ciplun o ddigwyddiadau gorfodol amddiffyn y cyhoedd gyda'u cofnod ar wahân eu hun o droseddau cymwys a darganfuwyd ychydig iawn o achosion coll. Nid oedd, fodd bynnag, yn bosib gwneud ymarfer tebyg ar gyfer hysbysiadau dewisol neu ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau diogelu, sef mwyafrif helaeth yr hysbysiadau.

3.2. Heblaw am fonitro cofnodion yn y cyfryngau, mae penaethiaid ardal fusnes y YJB yn dibynnu ar YOTs i adnabod digwyddiadau difrifol ac maen nhw ar gael i ddarparu cyngor pan fo YOTs yn ansicr. Tra bod rhai YOTs yn meddwl bod y cyngor yn gwrth-risg h.y. safle diofyn o gofnodi, roedd eraill yn gwerthfawrogi'r trafodaethau a'r cyngor a rennir.

3.3. Fel a ddynodir gan y tabl isod, roedd mwyafrif yr hysbysiadau o fewn ein harchwiliad yn gymwys o dan gyfarwyddyd y YJB. Roedd rhai eithriadau, er enghraifft, cyflwyno cyn cyhuddiad o drosedd cymwys a'r defnydd o gofnodi dewisol ar gyfer ymgais i ladd eu hun, pan roedd yn ddadleuol a oedd yr ymgais yn ddilys.

| A yw'r digwyddiad yn gymwys o dan trefn hysbysu CSPPI y YJB? | |
|---|---|
| Ydy | 26 (87%) |
| Nac ydy | 4 (13%) |

3.4. Fe welsom ddefnydd da o gofnodi dewisol i hyrwyddo dysgu, er enghraifft yn yr achos o blentyn a oedd yn ddioddefwr trywaniad. Trwy gwblhau Adroddiad Dysgu Hanfodol dewisol, roedd YOT Ealing wedi gallu ystyried diogelwch a chefnogaeth aelodau o'r teulu yn ogystal â'r plentyn dan sylw. Yna arweiniodd hyn at adolygiad partneriaeth o'r achos er mwyn dysgu gwersi pellach.

3.5. Roedd rheolwyr YOT yn gallu disgrifio ystod o ddulliau a ddefnyddiwyd i'r helpu adnabod digwyddiadau cymwys. Roedd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth ymysg staff y llys, trafodaeth reolaidd yng nghyfarfodydd tîm a rheolwyr, yn ogystal â derbyn rhybuddion cynnar o'r heddlu lleol a gwiriadau gyda'r YJB. Roedd rhai YOTs hefyd yn defnyddio gweithwyr iechyd a seicolegwyr i gadarnhau achosion o bobl yn ceisio lladd eu hunain ac roedd hyn yn fuddiol. Roedd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Swydd Buckingham (YOS) wedi datblygu 'siart llif digwyddiadau difrifol' i ddarparu darlun sydyn o hysbysiadau trwy adroddiadau cyflawn a rhannu gwersi a ddysgwyd a oedd yn nodyn atgoffi gwerthfawr i staff.

3.6. Wrth dderbyn hysbysiad, mae gofyn i YOTs ddarparu rhai manylion sylfaenol cychwynnol gan gynnwys dyddiad ac amser yr hysbysiad a natur cyswllt y plentyn â'r YOT. Fel a ddangosir yn y tabl isod, roedd bron chwarter o hysbysiadau yn cynnwys manylion cychwynnol annigonol, yn arbennig yn

ymwneud â chadarnhau'r hysbysiad i randdeiliaid allweddol; er enghraifft y YJB, Bwrdd Rheoli'r YOT, Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB)[6] a hefyd, ar adegau, y categori anghywir o drosedd, math yr orchymyn ac ethnigrwydd.

| **A yw'r dudalen hysbysu yn cynnwys manylion cychwynnol digonol?** | |
|---|---|
| Ydy | 23 (77%) |
| Nac ydy | 7 (23%) |

3.7. Fel a nodir isod, ychydig o'r Adroddiadau Dysgu Hanfodol oedd wedi'u cwblhau o fewn y deng diwrnod gwaith rhagnodedig ar ôl hysbysiad. Fe welsom mae dim ond deg oedd wedi cael eu cyflwyno 'ar amser'. Cynlluniwyd yr amserlen deng niwrnod er mwyn cynhyrchu adolygiad sydyn i allu gymryd mantais o ddysgu uniongyrchol ar gyfer y YOT. Fe ddarganfuom naw a oedd dros tair wythnos yn hwyr, o'r rheini roedd tri dros deufis yn hwyr. Cadarnhawyd i ni bod un wedi cael ei gwblhau oherwydd yr archwiliad yma yn unig.

| **A gwblhawyd yr Adroddiad Dysgu Hanfodol o fewn 10 niwrnod gwaith o gyflwyno'r hysbysiad?** | |
|---|---|
| Do | 10 (33%) |
| Naddo | 20 (67%) |

3.8. Roedd yr amserlen deng diwrnod yn achosi problemau mewn rhai achosion, yn arbennig pan roedd nifer o asiantaethau ynghlwm â'r plentyn ac roedd digwyddiad trawmatig wedi digwydd, er enghraifft pan roedd rhywun wedi marw. Mewn un cyflwyniad 'hwyr' o'r fath roedd ffeil yr achos yn cadarnhau bod cyfarfodydd priodol i gasglu gwybodaeth yn digwydd yn ystod y cyfnod deng diwrnod, yn unol â disgwyliadau lleol. Dywedodd un rheolwr YOT: "*Nid yw deng diwrnod yn ddigonol i dynnu safbwynt amlasiantaeth ynghyd, a dydy hynny ddim yn cyd-fynd â'n diwylliant dysgu*". Nododd un arall: "*Nid ydym yn malio cofnodi ond hoffem iddo ffitio'n fwy hyblyg i mewn i'n systemau*". Fodd bynnag, o fewn ein sampl fe welsom na fod cymryd mwy o amser i gwblhau'r Adroddiad Dysgu Hanfodol ddim o reidrwydd yn arwain at ansawdd gwell o ddysgu neu o osod gweithrediadau mewn modd effeithiol.

3.9. Roedd y YJB a'r YOTs yn dibynnu ar YJMIS i gadw'r hysbysiad a'r Adroddiad Dysgu Hanfodol. Yn gyffredinol, dywedodd YOTs wrthym eu bod yn cael anawsterau yn defnyddio'r YJMIS a bod hyn wedi cael effaith ar eu gallu i gofnodi'r llawn a/neu o fewn terfynau amser y YJB. Ymhlith y materion penodol ar adeg ein harchwiliad oedd:

- y system yn 'amseru allan' ac yn arwain at golli data neu ddim yn gallu llwytho Adroddiad Dysgu Hanfodol
- nid yw cynlluniau gweithredu Adroddiadau Dysgu Hanfodol bob tro'n cael eu tynnu drwodd ac mae'n rhaid eu llwytho ar wahân. Fe welwyd hyn yn ein sampl pan dderbynion rhai adroddiadau heb gynllun gweithredu, dim ond i ni dderbyn un yn ddiweddarach yn y YOT
- mae YJMIS yn cofnodi diwrnodau go iawn yn hytrach na diwrnodau gwaith ac felly mae'n adlewyrchiad anghywir o amserlen y cofnodi.

[6] Bwrdd Lleol Diogelu Plant – sefydlwyd ym mhob awdurdod lleol i gydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith amlasiantaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

3.10. Soniodd penaethiaid ardal fusnes y YJB/YJB Cymru hefyd am anawsterau gyda'r system yma, gan rwystro eu gallu i olrhain hysbysiadau a chofnodi sylwadau; dywedwyd wrthym: "*Nid oes gennym declyn cofnodi canolog sy'n ein darparu ag unrhyw beth sy'n werth cael*". Yn debyg, roedd detholiad sampl achos yr archwiliad wedi'i rwystro gan faterion cofnodi, gan gynnwys cofnodion lluosog ar gyfer un digwyddiad ac Adroddiadau Dysgu Hanfodol yn dangos fel eu bod ar goll pan, mewn gwirionedd, roeddent wedi'u cwblhau.

3.11. Roedd y materion a ddisgrifiwyd yn arwain at lefelau uchel o rwystredigaeth ymhlith YOTs a llawer o amser wast. Ymdrechwyd i geisio gweithio o amgylch y system gyda YOTs yn tueddu i gwblhau'r Adroddiad Dysgu Hanfodol mewn dogfen 'Word' ac yn ei bastio i'r system yn hytrach na'i fewnbynnu'n uniongyrchol, fel a fwriadwyd. Roedd y rhwystredigaethau hyn weithiau'n cael eu cofnodi o fewn yr adroddiad ei hun ac, er yn ddealladwy, dylai hyn ganolbwyntio ar yr hyn a ddysgwyd o'r achos. Mewn un ardal, nododd arolygydd: "*Adlewyrchir y rhwystredigaethau gyda'r system CSPPI/YJMIS yn y ffaith bod tri o'r wyth gweithrediad yn ymwneud â 'thrwsio'r system*".

3.12. Yn ymateb i hyn, mae'r YJB wedi gwneud nifer o geisiadau i ddarparwyd y YJMIS yn gofyn am newidiadau i'r system, yn dyddio yn ôl i fis Awst 2013. fodd bynnag, mae newidiadau pellach wedi oedi oherwydd mae'r system gyfan yn cael ei hadolygu. Golyga'r materion sylweddol gyda YJMIS y byddai angen glanhau'r data yn fanwl cyn byddai modd dadansoddi canfyddiadau Adolygiadau Dysgu Hanfodol a'u defnyddio i hysbysu polisi ac arferion.

## Ansawdd Adroddiadau Dysgu Hanfodol

3.13. Mae'r YJB yn darparu templed i gwblhau'r Adroddiad Dysgu Hanfodol wedi'i rannu yn yr adrannau canlynol:

| Adran yr Adroddiad | Diben |
|---|---|
| **Ymddygiad y person ifanc** | Adlewyrchu ar unrhyw ffactorau ym mywyd y person ifanc gallai fod wedi'u helpu i ddarogan y gallai'r digwyddiad ddigwydd. Ble roedd risg o niwed wedi cael ei adnabod eisoes, ystyried beth roedd yn ei le i reoli'r risg ac amddiffyn y person ifanc a/neu'r cyhoedd. |
| **Dysgu** | Nodi dysgu hanfodol sydd angen ymateb ar unwaith neu a fyddai'n buddio o gael ei rannu. Nid yw'n ymwneud â chanfod bai yn yr ymarferwr a dylid ystyried hyn ar wahân. |
| **Arfer da / effeithiol** | Cyfle i gydnabod a rhannu unrhyw arfer da neu effeithiol a adnabuwyd yn yr achos. |
| **Sicrhau ansawdd** | Mae disgwyl bod yr Adolygiad Dysgu Hanfodol yn destun lefel o archwiliad annibyniaeth er enghraifft o Fwrdd Rheoli'r YOT, LSCB, Panel MAPPA neu trwy adolygiad gan gyfoedion. |
| **Gweithrediadau** | Disgwylir bod canfyddiadau'r adolygiad yn troi i weithrediadau sy'n cael eu monitro. |

## Ymddygiad y Person Ifanc

3.14. Mae’r tabl isod yn dangos safbwynt arolygwyr o ansawdd yr adran ar ymddygiad y plentyn yn yr Adroddiad Dysgu Hanfodol cyn (adolygiad desg) ac ar ôl ein hasesiad o ffeil yr achos (adolygiad llawn). Ar ôl adolygiad desg ystyriwyd bron i ddau draean o leiaf yn annigonol. Yr esiamplau gorau oedd y sawl a ddarparwyd crynodeb cryno o’r ffactorau ym mywyd y plentyn a allai’i helpu i ddarogan y gallai’r digwyddiad ddigwydd, er enghraifft eu profiad o gamdriniaeth, hunan-niwed a defnydd o gyffuriau ac alcohol.

| Ymddygiad y person ifanc | Adolygiad desg | Adolygiad llawn |
|---|---|---|
| Da | 5 (17%) | 5 (17%) |
| Digonol | 14 (47%) | 5 (17%) |
| Annigonol | 9 (30%) | 13 (43%) |
| Gwael | 2 (7%) | 7 (23%) |

3.15. Wedi meddwl bod bron i ddau draean yn ddigonol neu’n dda ar ôl adolygiad desg, gwympodd hyn i draean pan adlewyrchodd arolygwyr ar y wybodaeth yng nghofnod yr achos. Fe welsom bod nifer o agweddau perthnasol o brofiadau’r plentyn wedi cael eu hepgor, gan gynnwys eu profiad mewn gofal, bod yn ddioddefwr o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, bregusrwydd y plentyn, neu agweddau a oedd yn peri pryder yn eu hymddygiad cyfredol neu yn y gorffennol; er enghraifft tuag at ddioddefwyr. Roedd angen tynnu’r holl wybodaeth yma i mewn i’r adran hon er mwyn rhoi darlun cyflawn o fywyd y plentyn a beth allai fod wedi achosi ymddygiad o’r fath. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

3.16. Yn hytrach na darparu dadansoddiad o effaith amgylchiadau’r plentyn, yn rhy aml roedd yr adran yma’n cynnwys datganiad am beth roedd wedi digwydd ynghyd â chofnod o droseddau’r plentyn.

Sylwadau gan Arolygwyr

“*Ar ôl darllen ffeil yr achos roedd yn amlwg na fod yr Adroddiad Dysgu Hanfodol yn darparu darlun digon da o sut roedd hanes ac ymddygiad y plentyn yn ei rhoi mewn risg o niwed h.y. pam roedd hi wedi bod ar y gofrestr Amddiffyn Plant, natur y camfanteisio rhywiol roedd hi wedi dioddef ac a oedd yn dal i fod yn risg iddi*”.

“*Dyma fenyw ifanc sydd wedi dioddef llawer o niwed ac sy’n ymddengys fel ei bod eisiau dinistrio ei hun. Maen nhw’n gweithio’n galed iawn i ymrwymo â hi. Mae llawer o wybodaeth ar ffeil ond braidd dim dadansoddiad o’i hymddygiad, beth mae’n golygu a’u hanghenion. Nid yw’r adroddiad yn crynhoi ei hymddygiad ac yn ei dadansoddi*”.

## Dysgu

3.17. Un o’r buddion a nodwyd o ddull y CSPPI yw: ‘dysgu ystyrlon o ddigwyddiadau pan maen nhw’n digwydd’. Yn wir, dylid ystyried hwn fel agwedd pwysicaf yr ymarfer. Fel a ddangosir yn y tabl isod, wrth wneud adolygiad desg o adran ddysgu’r adroddiad, teimlwyd bod dau draean o leiaf yn ddigonol. Yr esiamplau gorau o’r rheini oedd ble awdur yr adroddiad wedi gallu adlewyrchu yn feirniadol ar ansawdd y gwaith a wnaethpwyd yn yr achos. Wrth wneud hynny,

roeddent yn fwy tebygol o nodi materion a oedd angen gweithredu arnynt ar frys, er enghraifft trosglwyddiad gwael o achos, cyfathrebu annigonol gydag asiantaethau eraill a diffygion yn ansawdd asesiad iechyd meddwl.

| Dysgu a adnabuwyd | Adolygiad desg | Adolygiad llawn |
|---|---|---|
| Da | 6 (20%) | 6 (20%) |
| Digonol | 15 (50%) | 4 (13%) |
| Annigonol | 6 (20%) | 15 (50%) |
| Gwael | 3 (10%) | 5 (17%) |

3.18. Fel gyda'r adran flaenorol, gyda'r budd o adolygu cofnodion achos a chyfarfod â rheolwyr, fe welodd arolygwyr mai un traean yn unig o Adroddiadau Dysgu Hanfodol oedd wedi adnabod y dysgu o'r digwyddiad yn gynhwysfawr.

3.19. Roedd rhai adroddiadau yn ymddangos fel archwiliad o'r achos yn hytrach nag ymagwedd fyfyriol at ddysgu, er enghraifft, nodi asesiadau hwyr neu anghyflawn ond colli newidiadau perthnasol yn ymddygiad cyn y digwyddiad. Fe welsom achosion â dysgu coll honedig, ac eraill a oedd wedi adnabod y dysgu ond heb unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r mater. Mewn eraill, golyga ddisgrifiad a oedd yn rhy hir a braidd yn astrus o ddigwyddiadau bod y prif bwyntiau dysgu yn cael eu colli. Mae hyn yn achos pryder oherwydd heb adnabod y dysgu cywir, mae llai o gyfle i weithredu mewn modd addas i leihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiad tebyg yn digwydd eto yn y dyfodol.

3.20. Roedd nifer o adroddiadau wedi adnabod diffygion yng ngwaith ymarferwyr unigol, pan roedd y dysgu mwy perthnasol yn ymwneud â goruchwyliaeth rheolwyr neu gynllunio neu ddarpariaeth ehangach o'r gwasanaeth.

3.21. Mae gwerth yn gallu bod i adolygiad byr, sydyn i gipio beth sydd angen i'r YOT ei newid o ran ei brosesau ei hun i baratoi ar gyfer adolygiad lleol mwy eang neu Adolygiad Dysgu Estynedig. Fodd bynnag, yn anaml welwyd proses y CSPPI yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y modd yma.

3.22. Roedd nifer o Adolygiadau Dysgu Hanfodol yn gyfyngedig trwy fod yn adolygiad un asiantaeth o achos amlasiantaeth. Mewn un esiampl, roedd plentyn a oedd yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl wedi gwneud ymgais i ladd ei hun mewn lleoliad gofal cymdeithasol, ond nod oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant na wasanaethau iechyd meddwl yn rhan o'r adolygiad. Fe wnaeth yr un plentyn ymgais arall i ladd ei hun ychydig fisoedd yn ddiweddarach ac, unwaith eto, fe wnaethpwyd Adolygiad Dysgu Hanfodol un asiantaeth. Roedd adolygiadau o'r fath o achosion cymhleth a oedd yn hysbys i fwy nag un asiantaeth ddim yn anghyffredin ac roeddent yn cyfyngu'n ddifrifol ar y potensial i ddysgu gwersi. Yn aml, roedd arolygwyr yn ystyried y byddai Adolygiad Dysgu Estynedig yn fwy addas, oherwydd y byddai wedi cynnwys asiantaethau eraill ac wedi bod yn fwy tebygol o adnabod dysgu a gweithrediadau ar gyfer mwy nag un gwasanaeth.

**Esiamplau arfer da**

**Cofnodi dysgu ar unwaith a sbarduno adolygiad mwy manwl – YOT Hackney**

Mewn achos o lofruddiaeth yn Hackney, roedd yr Adroddiad Dysgu Hanfodol wedi nodi'r dysgu ar unwaith ar gyfer y YOT: gwella rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu, y menter gangiau a'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth. Rhoddwyd cynlluniau yn eu lle i wneud Adolygiad Dysgu Estynedig i gipio dysgu mwy manwl a strategol.

### Datblygu diwylliant dysgu – YOS Swydd Buckingham

Yn Swydd Buckingham, defnyddiwyd model arfer myfyriol i roi gwybodaeth i'r rheolwyr achos ac i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr Adolygiad Dysgu Hanfodol. Roedd hyn yn canolbwyntio ar beth oedd wedi digwydd, pam roedd wedi digwydd, a'r goblygiadau cyn ystyried beth ddylai ddigwydd nesaf. Roedd hyn yn helpu'r rheolwr achos, mewn modd cefnogol, i ddysgu o'r achos a chytuno ar gynllun gweithredu priodol. Roedd hwn yn un o nifer o esiamplau bod y rheolwr achos yn rhan weithredol o'r Adolygiad Dysgu Hanfodol.

### Comisiynu ymgynghorydd allanol i wneud Adolygiad Dysgu Estynedig – YOT Caerdydd

Yng Nghaerdydd, roedd Rheolwr y YOT wedi gweithio'n galed i sicrhau Adolygiad Dysgu Estynedig yn achos plentyn oedd wedi gwneud ymgais i ladd ei hun. Dyma oedd y penderfyniad cywir oherwydd roedd yn glir y byddai pethau i'w dysgu ar gyfer mwy nag un asiantaeth ac nid oedd unrhyw fath arall o adolygiad lleol yn mynd i ddigwydd y tu hwnt i'r Adolygiad Dysgu Hanfodol. Comisiynodd y YOT ymgynghorydd allanol i wneud yr Adolygiad Dysgu Estynedig ac adrodd yn ôl i Fwrdd Rheoli'r YOT a'r LSCB. Fe ddarparodd ddarlun lawer cliriach o ymddygiad y plentyn na'r Adroddiad Dysgu Hanfodol, yn arbennig ei defnydd hir dymor o gyffuriau a chofnod o gyswllt â gwasanaethau eraill megis gwasanaethau cymdeithasol i blant, addysg ac iechyd. Fe helpodd y YOT i sylwi ar faterion pwysig gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant gan gynnwys trefniadau i blant wedi'u gosod ar remand mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc.

## Arfer da/effeithiol

3.23. Adnabod arfer da/effeithiol oedd yr elfen o'r Adroddiad Dysgu Hanfodol a oedd fwyaf cyson yn ystod adolygiadau desg a llawn. Fe ddarganfuom fod tua hanner yr adroddiadau wedi adnabod arfer da neu effeithiol yn yr achos yn ddigon da. Pan nad oedd hyn wedi digwydd, roedd awduron adroddiadau wedi nodi fel arfer da gwaith byddai'n cael ei ystyried fel arfer safonol er enghraifft: 'gorfodaeth gyflym', 'cydymffurfio â chyfarwyddyd achos' neu 'cynllun ymyrraeth da' heb ddweud beth oedd yn dda amdano. Mae'n ddealladwy y byddai awduron adroddiadau hefyd eisiau nodi rhai elfennau cadarnhaol o'r gwaith achos, yn arbennig wrth ystyried effaith rhai o'r digwyddiadau ar yr ymarferwyr. Fodd bynnag, roedd weithiau'n anodd dod o hyd i'r arfer da ymysg y rhestr o arferion safonol.

| Arfer da/effeithiol a adnabuwyd | Adolygiad desg | Adolygiad llawn |
|---|---|---|
| Da | 0 | 1 (5%) |
| Digonol | 14 (50%) | 11 (52%) |
| Annigonol | 11 (39%) | 8 (38%) |
| Gwael | 3 (11%) | 1 (5%) |
| Ddim yn berthnasol – ni adnabuwyd unrhyw arfer da | 2 | 9 |

## Sicrhau ansawdd

3.24. Budd arall a nodwyd o’r dull hwn yw 'mwy o ddibyniaeth ar brosesau dysgu a sicrhau ansawdd lleol'. Disgwylir, unwaith y byddant wedi’u hysgrifennu, y bydd yr Adroddiad Dysgu Hanfodol yn cael ei adolygu gan berson annibynnol i wneud yn siŵr ei fod o ansawdd digonol. Mae'r canllawiau CSPPI y YJB yn awgrymu y gallai’r broses yma o sicrhau ansawdd ddod gan aelod o Fwrdd Rheoli y YOT, LSCB, panel MAPPA, arbenigwr annibynnol neu drwy adolygiad cyfoedion (menter a gefnogir gan y YJB ble mae rheolwyr y YOT yn cael eu hyfforddi i adolygu arferion yn y YOTs eraill).

3.25. Ychydig iawn o'r achosion yn y sampl oedd yn destun sicrwydd ansawdd gan unrhyw un o'r uchod cyn eu cyflwyno, er bod trefniadau lleol amgen yn bodoli. Yn fwy aml, byddai sicrwydd ansawdd yn gyfystyr 'cymeradwyo' gan reolwr y YOT, ond anaml y maent yn adolygu'r achos eu hunain. Yna roedd yna awgrym y byddai'r Adroddiad Dysgu Hanfodol yn mynd gerbron Bwrdd Rheoli y YOT neu LSCB ar ddyddiad i'w benderfynu. Fe wnaethom weld tystiolaeth trwy gofnodion Bwrdd Rheoli a LSCB bod sylw yn cael ei dwyn at Adroddiadau Dysgu Hanfodol ond nid ar adeg i ddylanwadu ar gynnwys yr adroddiad. Fel y nododd un arolygydd: "Nid oedd yn destun unrhyw graffu cyn belled ag y gallwn ddweud. Mae adran sicrhau ansawdd yn dweud 'y bydd yn' mynd at y bwrdd, nid 'mae wedi bod' ". Y mae, fodd bynnag, yn cydnabod y byddai’r dulliau a awgrymir uchod o sicrhau ansawdd yn anodd iawn i'w cyflawni o fewn y gweithdroad deng diwrnod disgwyliedig i'w gyflwyno i'r YJB.

3.26. Ar ôl adolygiad desg, yn anaml roedd yn bosibl pennu sefyllfa'r awdur yr Adroddiad Dysgu Hanfodol yn y sefydliad, ac nid oedd y templed yn gofyn am hyn. Gwelsom fod dwy ran o dair yn cael eu hysgrifennu gan reolwyr gweithredol, roedd gan rai ohonynt gyfrifoldeb rheoli llinell dros yr achos. Nid oedd hyn yn cael ei ystyried yr arfer gorau oherwydd eu cysylltiad â phenderfyniadau rheoli allweddol a'r angen am lefel o ddatodiad pan fydd pethau wedi mynd o’i le mewn achos.

3.27. Fodd bynnag, nid oedd gan bob YOT adnodd digonol i’w ddyrannu i reolwr gweithredol arall o fewn y gwasanaeth ac nid oedd wedi datblygu trefniadau amgen i’w defnyddio. Roedd dyraniad i'r rheolwr llinell yn cael ei weld fel modd o gyrraedd y gweithdroad deng diwrnod, o ystyried eu gwybodaeth flaenorol o’r achos. Yn yr achosion hyn, mae rôl y person sy’n sicrhau ansawdd hyd yn oed mwy pwysig.

3.28. Fel a ddangosir yn y tabl isod, fe welsom mai dim ond ychydig dros un rhan o dair o achosion oedd wedi bod yn destun lefel ddigonol o graffu annibynnol. Roedd hyn yn aml pan YOTs wedi mynd yr ail filltir i ddarparu sicrwydd ansawdd ail lefel o adroddiadau a/neu graffu mwy annibynnol drwy reolwyr eraill o fewn y gwasanaeth.

| **A oedd yr Adroddiad Dysgu Hanfodol yn destun lefel ddigonol o graffu annibynnol?** | |
|---|---|
| Oedd | 11 (37%) |
| Nac oedd | 19 (63%) |

3.29. Er ein bod wedi barnu cymharol ychydig Adroddiad Dysgu Hanfodol fel 'da' yn yr adrannau 'ymddygiad person ifanc, 'dysgu' ac 'arfer da/effeithiol', roedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a oedd yn cyflawni hyn hefyd wedi bod yn destun lefel ddigonol o graffu annibynnol.

**Esiamplau arfer da**

**Awduron Adroddiadau Dysgu Hanfodol gyda rhywfaint o annibyniaeth o'r gwasanaeth**

Roedd rhai YOTs yn gallu defnyddio adnodd priodol o'r tu mewn i'r bartneriaeth ehangach, er enghraifft yn Surrey rheolwr gwasanaeth integredig, ac yn Essex swyddog adolygu gwasanaethau plant yr awdurdod lleol, roedd hyn yn darparu lefel briodol o ddatgysylltiad o'r achos.

**Sicrhau ansawdd ar lefel addas o annibyniaeth a hynafedd – YOT Wandsworth**

Yn Wandsworth roedd sicrwydd ansawdd yn cael ei ddarparu gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol â chyfrifoldeb dros y YOT, ac roedd wedi galw cyfarfod o weithwyr proffesiynol perthnasol un wythnos ar ôl y digwyddiad. Nid oedd y camau gweithredu a ddeilliodd o'r Adolygiad Dysgu Hanfodol wedi'u cyfyngu i'r YOT, ond roeddent yn cynnwys gwaith ar gyfer y rhwydwaith proffesiynol ehangach. Er bod ar gam cynnar o weithredu, mae cydlyniant ar lefel Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn ei gwneud yn bosibl i sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

**Ffurflen sicrhau ansawdd – YOT Hampshire**

Roedd YOT Hampshire wedi datblygu ffurflen ddefnyddiol i helpu strwythuro'r broses sicrhau ansawdd. Mae'n annog y person sy'n sicrhau ansawdd i ofyn y cwestiynau cywir, megis: 'A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad cylchol ac amlwg mewn perthynas â'r digwyddiad difrifol?', 'A yw'r awdur yn nodi yn benodol yr hyn y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol a sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar yr achos?', 'A yw'r cynllun gweithredu yn cynnwys pwyntiau a meysydd dysgu penodol ar gyfer gwella a amlygwyd yn yr adroddiad?'. Mae newidiadau a wnaed i'r adroddiadau yn cael eu cofnodi ar y ffurflen ac yn rhoi cofnod defnyddiol o arfer sicrhau ansawdd o fewn y gwasanaeth.

## Gweithrediadau

3.30. Ar ôl adolygiad desg y cwbl gallem ei benderfynu oedd a oedd y gweithrediadau cywir wedi cael eu cytuno arnynt ar sail y wybodaeth yn yr Adroddiad Dysgu Hanfodol. Fel a ddangosir yn y tabl isod, roeddem o'r farn bod 13 wedi nodi gweithrediadau priodol sy'n llifo o'r canfyddiadau'r adolygiad. Roedd pump arall wedi mynd rhan o'r ffordd at nodi camau gweithredu cywir.

| **Yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr Adroddiad Dysgu Hanfodol, a gytunwyd ar y gweithrediadau cywir?** | |
|---|---|
| Do | 13 (46%) |
| Naddo | 10 (36%) |

| | |
|---|---|
| Yn rhannol | 5 (18%) |
| Ddim yn berthnasol yn yr achos hwn | 2 |

3.31. Fodd bynnag, gyda'r fantais o edrych ar y cofnodion achos a siarad â rheolwyr YOT nodwyd dim ond wyth adroddiad lle roedd y gweithrediadau cywir wedi cael eu hadnabod. Roedd hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau cynharach am adolygiad ddim bob tro'n adnabod y gwersi cywir i'w dysgu, ac yn dilyn hynny, trosi hyn yn gamau gweithredu priodol. Roedd y sefyllfa yn fwy cymhleth oherwydd y diffyg sicrwydd ansawdd. O ganlyniad, roedd gan y mwyafrif helaeth o adroddiadau yn ein sampl weithrediadau annigonol wrth ystyried natur y digwyddiad difrifol a'r potensial dysgu.

**Esiampl o arfer: cyfle coll i drosi dysgu yn gamau gweithredu**

Yn achos plentyn a oedd wedi ceisio lladd eu hunain yn ei gartref gofal preswyl roedd adolygiad y YOT yn gywir wedi adnabod bylchau wrth rannu gwybodaeth pan drosglwyddwyd yr achos o ardal arall. Nodwyd hefyd yr angen am gyfathrebu gwell gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant, gan gynnwys mynediad at wybodaeth a gofnodwyd yn yr uned breswyl. Fodd bynnag, nid oedd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant yn rhan o'r adolygiad a ni throswyd unrhyw rai o'r pwyntiau dysgu hyn yn gamau gweithredu.

3.32. Mae Adroddiadau Dysgu Hanfodol yn tueddu i nodi gweithrediadau a oedd yn weithredol yn eu natur, gan gau allan gweithrediadau mwy strategol, er enghraifft, cam gweithredu i 'adolygu prosesau atgyfeirio ar gyfer gweithwyr allgymorth' pan oedd y mater yn un gydag adnoddau annigonol. Roedd nifer yn ymwneud â phrosesau arferol y YOT megis dilyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid[7], cyfarwyddyd achos y YOT, neu adolygu polisïau a dulliau gweithredu, a gallai nodi'r rhain yn fwy addas trwy oruchwyliaeth well gan reolwyr. Felly, roedd camau gweithredu yn aml wedi'u targedu at lefel ymarferwyr yn hytrach na ar draws gwasanaethau neu bartneriaethau. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod y mwyafrif o adroddiadau'n cael eu cwblhau gan reolwyr gweithredol sy'n llai cyfarwydd â'r darlun strategol ehangach a grymuso ddigon i wneud argymhellion ar lefel strategol. O ystyried y cefndir a'r materion cymhleth a godwyd gan nifer o'r achosion yn y sampl, byddai camau gweithredu mwy strategol wedi cael mwy o effaith.

3.33. Roeddem yn falch o weld bod YOS Surrey wedi cynnwys yn eu cynllun gweithredu maes gwaith a nodwyd gan awdur yr adroddiad fel arfer da i'w lledaenu yn ehangach, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiffygion yn unig.

**Esiampl arfer dda: troi gwersi a ddysgwyd yn gamau gweithredu – YOT Wigan**

Mewn Adroddiad Dysgu Hanfodol a gwblhawyd gan YOT Wigan ar fachgen cythryblus a oedd wedi hunan-niweidio am yr ail dro mewn 11 diwrnod, nodwyd diffyg mynediad at asesiadau iechyd meddwl priodol ar gyfer plant sy'n hysbys i'r gwasanaeth. Mae hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg dealltwriaeth am rôl gwasanaethau iechyd meddwl i blant. Anogodd yr achos i reolwr y YOT adolygu pob achos YOT â phroblemau iechyd meddwl ac i awgrymu dau gam gweithredu allweddol. Un oedd

[7] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2013) *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Ebrill 2013*

sicrhau cyngor iechyd meddwl arbenigol ar gyfer y YOT a'r llall i roi gwybodaeth i weithwyr y YOT ar yr hyn y gallent ei ddisgwyl oddi wrth wasanaethau iechyd meddwl. Cyflawnwyd y ddau.

## Rhoi gweithrediadau ar waith

3.34. Er gwaethaf ein canfyddiad cynharach nad oedd y gweithrediadau cywir wedi cael eu hadnabod bob amser, dim ond mewn pum achos doedd dim cynnydd o gwbl wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r gweithrediadau y cytunwyd arnynt.

3.35. Yn gyffredinol, roedd cynlluniau gweithredu yn cael eu dwyn i Fyrddau Rheoli ac weithiau i'r is-grwpiau priodol o fewn y LSCB, ar gyfer monitro a chymeradwyaeth. Fodd bynnag, nid oedd llawer o dystiolaeth o graffu manwl gan y cyrff hyn. Mewn rhai YOTs roedd ychydig yn fwy nag ymarfer adrodd ac roedd y gwaith yn cael ei adael i'r YOT i'w heb lawer o oruchwyliaeth. Dywedodd un YOT wrthym eu bod ddwywaith wedi gwneud yr un argymhelliad am gyfranogiad asiantaethau partner heb unrhyw weithredu ar hyn.

| **Yn gyffredinol, a oes cynnydd digonol wedi cael ei wneud ar roi'r gweithrediadau ar waith yn sgil yr Adolygiad Dysgu Hanfodol?** | |
|---|---|
| Oes | 11 (48%) |
| Nac oes | 5 (22%) |
| Yn rhannol | 7 (30%) |
| Ddim yn berthnasol yn yr achos hwn | 7 |

### Esiamplau Arfer Dda: rhoi dysgu ar waith YOT Hampshire

Mae YOT Hampshire TTI wedi cadw cofnod manwl o'r holl ddigwyddiadau difrifol yn eu hardal ers mis Hydref 2012. Cyflwynwyd Adroddiadau Dysgu Hanfodol i Fwrdd Rheoli'r YOT ar ffurf gryno gan yr awdur. Ble mae asiantaethau eraill yn cael eu cynnwys maent hefyd yn mynd i'r is-grŵp Adolygu Achosion Difrifol LSCB sy'n cael ei gadeirio gan Gadeirydd Bwrdd Rheoli y YOT, a thrwy hynny yn sicrhau parhad. Mae gweithdai 'Dysgu gwersi' yn cael eu darparu o bryd i'w gilydd i'r holl staff ac yn rhoi cyfle i rannu'r prif ganfyddiadau a'r gweithrediadau sy'n deillio o adroddiadau. Cyflwynwyd sgrinio agored i niwed ym mhob Llys Ieuenctid, gwaith gyda Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA i ddarparu canllawiau YOT ar gyfer adolygiadau Lefel 1 a chyfranogiad y YOT yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth i gyd yn sgil canfyddiadau Adolygiadau Dysgu Hanfodol.

### Gwella cysylltiadau gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed - YOS Darlington

Wedi i ddau Adroddiad Dysgu Hanfodol dynnu sylw at gysylltiadau annigonol rhwng y YOT a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), dechreuwyd gwaith i helpu'r ddwy asiantaeth yn deall busnes ei gilydd. Rhoddwyd strategaeth gyfathrebu ar waith, adnabuwyd gweithwyr cyswllt a sicrhawyd presenoldeb rheolaidd ym Mwrdd Rheoli y YOT.

### Ymagwedd gydgysylltiedig at gofnodi gweithrediadau – YOS Swydd

**Stafford**

Yn Swydd Stafford roedd gan Rheolwr y YOS oruchwyliaeth gychwynnol dros yr holl gynlluniau gweithredu sy'n deillio o Adroddiadau Dysgu Hanfodol ac adolygiadau dysgu eraill ac roeddent yn sicrhau fod tystiolaeth bendant o gynnydd yn erbyn pob gweithred cyn adrodd i'r Bwrdd Rheoli. Casglwyd y wybodaeth ac roedd dau weithdy wedi bod yn blaenorol ar gyfer staff yn tynnu sylw at ac yn archwilio'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau blaenorol.

## Plant sy'n Derbyn Gofal: pryder arbennig

3.36. Dynoda data'r YJB bod Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'u cynrychioli yn ormodol yng nghyfanswm y digwyddiadau difrifol a hysbyswyd gan YOTs. Roedd ein sampl yn cynnwys 14 plentyn mewn gofal awdurdod lleol, gyda 5 ohonynt wedi'u gosod y tu allan i'w hardal gartref, gan ychwanegu haen arall o gymhlethdod. Yn cyd-fynd â'r tueddiad cenedlaethol, roedd nifer helaeth yr hysbysiadau yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ein sampl yn ddigwyddiadau diogelu. Roedd tri achos yn ymwneud ag amddiffyn y cyhoedd.

3.37. Er bod y niferodd yn isel, fe feirniadom fod ansawdd y wybodaeth am ymddygiad y plentyn, gan ddysgu o beth oedd wedi digwydd a'r gweithrediadau a gymerwyd, yn wannach ar gyfer y sampl o Blant sy'n Derbyn Gofal. Fe feirniadom mai dim ond 6 o'r 14 Adroddiad Dysgu Hanfodol oedd wedi derbyn archwiliad annibynnol digonol ond roedd hyn braidd yn well nag ar gyfer Plant nad sy'n Derbyn Gofal.

3.38. Un o'r anawsterau gyda'r Adolygiad Dysgu Hanfodol fel cyfrwng i nodi dysgu a gwneud argymhellion yn yr achosion hyn yw eu bod, yn ôl y diffiniad, yn cael eu rheoli gan fwy nag un gwasanaeth. Mae'r amserlen fyrrach a phersbectif un asiantaeth unigol o'r broses Adolygiad Dysgu Hanfodol yn ddieithriad yn golygu nad yw gofal cymdeithasol plant yn cymryd rhan, ac yn aml roedd gan yr asiantaeth honno rhan fwy arwyddocaol yn yr achos. Golyga hyn y gallai gwaith y YOT fod yn ymylol i'r hyn oedd y broblem mewn gwirionedd, er enghraifft, pan fo plentyn yn derbyn gofal y tu allan i'r ardal ac yn symud nifer o weithiau.

3.39. Byddai ychydig iawn o'r Adroddiadau Dysgu Hanfodol yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal hefyd fod yn destun adolygiad gan yr awdurdod lleol. Mewn un enghraifft o'r fath roedd gofyn i'r YOT gyflwyno adroddiad arall ar wahân i adolygiad yr awdurdod lleol, wedi eisoes cwblhau Adroddiad Dysgu Hanfodol. Mae'r Adroddiad Dysgu Hanfodol yn ddarn sylweddol o waith i ymgymryd yn yr achosion hyn a'r dull anghywir i geisio annog asiantaeth arall i gynnal adolygiad lleol. Fel y dywedodd un rheolwr y YOT: *"Mae'r broses yn defnyddio llawer o adnoddau felly rydym eisiau gwneud adolygiadau o dan yr amgylchiadau cywir i gael y dysgu yn iawn. Mae'n fater o gymesuredd."*

3.40. O'r 14 achos yn y sampl Plant sy'n Derbyn Gofal, dim ond 2 oedd yn cynnwys gweithrediadau penodol ar gyfer asiantaethau eraill yn y cynllun, er bod yna ddysgu perthnasol i eraill, er enghraifft yn ymwneud â chadw plant yn ddiogel a chynnig gwasanaethau addas i fodloni'u hanghenion. Mewn ymgais i fynd i'r afael â gweithrediadau tuag at asiantaethau eraill, roedd rhai YOTs yn defnyddio terminoleg fel 'siarad â gofal cymdeithasol i blant….', 'efallai hoffai gofal cymdeithasol i blant...' ond nid oedd hyn yn ddigon.

3.41. Anaml roedd Adolygiad Dysgu Estynedig, neu fath arall o adolygiad lleol yn cael ei ystyried ar gyfer y plant yn ein sampl, ond byddai hyn wedi bod yn ddull mwy addas ar gyfer dysgu, yn arbennig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Esiampl arfer: diffyg atebolrwydd ar gyfer gweithrediadau a gytunwyd arnynt pan mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu gosod i ffwrdd o'u hardal gartref.**

Mewn achos o Blentyn sy'n Derbyn Gofal y gosodwyd y tu allan i'w awdurdod lleol cartref, dangoswyd diffygion y broses yma ar gyfer plant yn y sefyllfa yma. Roedd yr Adolygiad Dysgu Hanfodol yn berthnasol o dri YOT, yr ardal gartref (YOT A), y lleoliad cyntaf y tu allan i'r ardal (YOT B) a'r lleoliad dilynol y tu allan i'r ardal (YOT C) ble ddigwyddodd y digwyddiad difrifol (ymgais i ladd ei hun). Roedd YOT C wedi dod i wybod bod y plentyn yn eu hardal ychydig o amser yn unig cyn i'r digwyddiad ddigwydd, ond yn unol â chyfarwyddyd y YJB, nhw oedd yn gyfrifol am ysgrifennu'r Adroddiad Dysgu Hanfodol. Fel y dylai, roedd yr adroddiad yn cynnwys gweithrediadau ar gyfer y tri YOT. Fodd bynnag, ni wiriodd y YJB na'r YOT oedd yn gyfrifol am yr Adroddiad Dysgu Hanfodol os oedd y gweithrediadau wedi cael eu cwblhau gan y tri YOT yn ddiweddarach.

## Asesiad cyffredinol

3.42. Gyda'r budd o adolygu'r cofnodion achos a siarad â rheolwyr y YOT, yn gyffredinol, roedd arolygwyr yn rhy hael wrth feirniadu ansawdd Adroddiadau Dysgu Hanfodol. Ar ôl adolygiad llawn, fe ddarganfuwyd bod llai na hanner yr Adroddiadau Dysgu Hanfodol yn adlewyrchiad digonol o'r wybodaeth yng nghofnod yr achos (gweler y tabl isod). Roedd hyn yn arbennig o wir am yr adrannau yn ymwneud ag ymddygiad person ifanc, dysgu a gweithrediadau. Nid oedd trefniadau sicrhau ansawdd lleol wedi bod yn ddigonol i fynd i'r afael â hyn.

| **Yn gyffredinol, a yw'r wybodaeth yng nghofnod yr achos yn cefnogi cynnwys yr Adroddiad Dysgu Hanfodol?** | |
|---|---|
| Ydy | 13 (43%) |
| Nac ydy | 17 (57%) |

# 4. Dysgu cenedlaethol a lleol

## Dysgu cenedlaethol

4.1. Nid yw ymglymiad y YJB gyda digwyddiadau difrifol bellach yn ymwneud â goruchwyliaeth neu sicrhau ansawdd arferion y YOT, ond â modd o ddod i wybod am wybodaeth leol a chenedlaethol gallai fod angen i'r YJB weithredu ar. Mae Adroddiadau Dysgu Hanfodol nawr yn cael eu cadw'n ganolog gyda'r nod o ddadansoddi'r data, adnabod tueddiadau, gwersi a ddysgwyd ac arferion addawol; er mwyn eu rhannu gyda YOTs yn flynyddol. Fodd bynnag, nid oedd adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi eto. Roedd hyn yn cael ei ystyried i fod yn fwlch pwysig gan reolwr y YOT a oedd eisiau adborth rhanbarthol a chenedlaethol i'w helpu i roi meincnod ar eu gwaith hwythau. Roedd hyn yn arbennig o wir pan roedd digwyddiadau difrifol yn anaml, gan olygu bod YOTs hyd yn oed yn fwy dibynnol ar ddysgu cenedlaethol cyffredinol i'w helpu i well arferion yn lleol.

4.2. Bellach nid oes disgwyl i benaethiaid ardal fusnes y YJB/YJB Cymru gynhyrchu adroddiadau dysgu rhanbarthol. Fodd bynnag, maen nhw'n mynychu cyfarfodydd rheolwyr YOT rhanbarthol ac yng Nghymru, rheolwyr YOT Cymru, ble maen nhw'n clywed a rhannu gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau difrifol. Yn debyg, defnyddir fforymau arferion effeithiol rhanbarthol i rannu negeseuon sy'n codi i ddigwyddiadau difrifol. Yna gellir anfon themâu sy'n dod i'r amlwg at Bennaeth Diogelu y YJB sydd, yn ei droi, yn adrodd i Grŵp Rheoli Gweithredol y YJB. Hyd yn hyn, mae gwendidau yn narpariaeth iechyd meddwl a phroblemau gyda throsglwyddo achosion ac arferion ar draws ffiniau wedi cael eu hadnabod.

4.3. O bryd i'w gilydd, mae penaethiaid ardal fusnes y YJB/YJB Cymru hefyd yn mynychu Byrddau Rheoli'r YOT ac yn gallu helpu YOTs i gael gwared ar rwystrau megis mynediad at wasanaethau. Maen nhw hefyd yn monitro materion lleol ac yn un YOT yn nodi gweithrediadau mynych yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl annigonol ar gyfer plant. Bu aelod o staff y YJB gyfarfod â'r YOT ac fe helpodd hyn i lunio cytundeb lefel gwasanaeth gyda CAMHS.

4.4. Roedd penaethiaid ardal fusnes y YJB/YJB Cymru yn cydnabod, fodd bynnag, na fod y system mor effeithiol ag y gallai neu ag y dylai fod. Er enghraifft, dywedwyd wrthym: "*golyga'r newid yn y broses ein bod wedi colli llawer o fanylion yn lleol*" neu ei fod "*wedi newid i fod yn broses monitro*". Yn fwy cadarnhaol, teimlwyd fod y prosesau newydd wedi rhoi mwy o ffocws ar ddiogelu a bod yr hysbysiad dewisol yn annog mwy o drafodaethau am arferion.

4.5. Nid oedd YOTs bob tro'n glir ynghylch beth roeddent yn gallu, neu beth ddylent, disgwyl neu beth oedd diben ymglymiad y YJB. Fe ddisgrifion nhw'r lefelau amrywiol o gefnogaeth o ardaloedd lleol o: "*Roedd y YJB yn ardderchog*" a "*ni ellir gwella arnynt*" ar un pen i: "*does dim adborth o gwbl o'r YJB; dim dysgu ar draws ardaloedd, dim adroddiadau cyffredinol*".

4.6. Fe ddywedodd penaethiaid ardal fusnes y YJB/YJB Cymru wrthym eu bod ddim yn teimlo'r hyderus yn cymeradwyo Adroddiadau Dysgu Hanfodol heb weld yr achos. Fe ddywedon nhw bod yr ansawdd yn amrywiol, yn dibynnu ar awdur yr adroddiad, lefel eu profiad a'u dealltwriaeth o'r broses, ond roeddent yn teimlo bod mwy o archwiliad y tu hwnt i'w cylch gorchwyl. Fe ddywedwyd wrthym, er enghraifft: "*Yn aml dydw i ddim yn gwybod beth rwy'n gweld ...ond nid oes gennyf y pŵer i herio*", "*Mae gennyf ormod o gwestiynau heb eu hateb*". Fe welsom un esiampl o Adroddiad Dysgu Hanfodol yn cael ei ddychwelyd i'w ailgyflwyno oherwydd ei ansawdd gwael, a thra mai dyma oedd y peth cywir i'w wneud, nid oedd bellach o fewn eu cylch gorchwyl. Fodd bynnag, croesawyd hyn gan y YOT a oedd wedi buddio o gymorth gan y YJB i ddatblygu'u harferion. Cafodd hyn ei dilyn gan sesiwn hyfforddi ar Adroddiadau Dysgu Hanfodol ar gyfer clwstwr o YOTs yn yr ardal.

4.7. Ar hyn o bryd, does dim cysondeb rhwng y broses ar gyfer dysgu pan mae pethau wedi mynd o'u le yn y gymuned a'r trefniadau ar wahân yn eu lle ar gyfer plant yn y ddalfa[8]. Nodwyd y gwahaniaeth hwn gan y YOTs a'r YJB. Y bwriad yw y bydd hyn yn newid yn y dyfodol er bydd elfennau o gofnodi ar wahân yn parhau ar gyfer plant yn y ddalfa.

4.8. Roedd uwch reolwyr y YJB a gyfwelwyd â hwy yn cydnabod, tra bod gan y YJB fynediad at wybodaeth fwy ystyrlon nag o dan yr hen system, agwedd gwanaf y weithdrefn oedd diffyg proses clir i adnabod y dysgu.

## Dysgu lleol

4.9. Roedd Cadeiryddion Byrddau Rheoli YOT yn glir mai nhw oedd â chyfrifoldeb cyffredinol dros ddigwyddiadau difrifol ac roeddent yn fodlon bod YOTs yn cydymffurfio â dulliau gweithredu'r YJB.

4.10. Roedd y camau gweithredu yn yr Adroddiadau Dysgu Hanfodol yn cael eu monitro mewn amrywiol foddau; o fewn y YOT, o fewn Bwrdd Rheoli'r YOT, fel rhan o is-grŵp LSCB, neu gymysgedd o'r tri. Fodd bynnag, fel a nodwyd eisoes, roedd gwir archwiliad yn aml ar goll.

4.11. Nid oedd bob tro'n glir sut roedd proses y CSPPI yn cyd-fynd â phrosesau strategol lleol, heblaw am fel mecanwaith cofnodi. Mewn rhai ardaloedd, ymddengys ei fod yn cael ei ystyried fel sbardun am adolygiad pellach, er ychydig iawn o dystiolaeth welsom o hyn. Mewn un ardal, roedd rheolwr y YOT wedi gorfod gweithio'n galed iawn i gael Adolygiadau Dysgu Hanfodol ar agenda'r LSCB oherwydd gwrthwynebiad gan y cadeirydd.

4.12. Nododd nifer o reolwyr y YOT bod archwiliad cadarn o'r tu allan i'w gwasanaeth yn ddiffygiol, o'i gymharu â phan roedd y YJB yn darparu hyn trwy sicrwydd ansawdd o'u hadroddiadau. Gyda rhai eithriadau nodedig, nid oedd byrddau rheoli'r YOT na LSCBs wedi llenwi'r bwlch.

4.13. Roedd mwyafrif y YOTs yn gweld eisiau'r adborth strwythuredig a'r her roedd y YJB yn darparu o dan yr hen system. Roedd adolygiadau chwarterol y YJB o berfformiad y YOT yn cynnwys rhai cyfeiriadau at CSPPI, ond fel arfer roedd hyn yn gyfyngedig i linell am nifer a mathau'r adroddiadau a gyflwynwyd.

---

[8] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2009) *Protocol ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau Difrifol a Phwysig Archwiliad i Asesu Effeithiolrwydd Cofnodi, Monitro a Dysgu o Weithdrefnau Diogelu'r Cyhoedd y Bwrdd Cyflawnder Ieuenctid a Gweithdrefnau Digwyddiadau Amddiffyn y Cyhoedd*

Roedd hwn yn gyfle coll i ddarparu adborth rheolaidd ar ansawdd Adroddiadau Dysgu Hanfodol. Roedd un YOT wedi gofyn yn benodol am adborth ar eu hadroddiadau ac wedi derbyn gohebiaeth ddefnyddiol o dîm y YJB yn eu hardal.

4.14. Roedd yn haws cyffredinoli dysgu lleol mewn awdurdodau mwy gydag amlder uwch o ddigwyddiadau difrifol. Er enghraifft, ym Manceinion, ar ôl 15 digwyddiad o hunan-niweidio mewn 1 flwyddyn, fe weithiodd y YOT gyda phartneriaid i ddylunio proses ledled y ddinas i asesu difrifoldeb digwyddiadau hunan-niwed. Fe gytunon nhw ar ddiffiniad a phroses cofnodi cyffredin. Heb amlder o ddigwyddiadau difrifol, roedd y dysgu yn tueddu i fod yn benodol i'r achos unigol ac, oni bai ei fod yn cael ei gofnodi fel rhan o'r darlun cenedlaethol, byddai gwelliannau pellach dros amser yn anodd eu tystiolaethu.

4.15. Roedd yn ymddangos hyd yn oed yn llai tueddol y byddai adolygiad amlasiantaeth ar gyfer hysbysiad amddiffyn y cyhoedd na ddiogelu. Byddai digwyddiadau difrifol amddiffyn y cyhoedd yn anaml yn cymhwyso fel atgyfeiriadau gorfodol i MAPPA ac yn aml iawn roeddent yn cael eu hystyried fel busnes YOT. Tra bod gan y YOT y rôl o asesu a rheoli'r risg i eraill mae'r plentyn yn peri, ac mae felly yn asiantaeth allweddol mewn unrhyw adolygiad, bydd nifer o'r plant yn hysbys i wasanaethau eraill. Gallai weithrediadau asiantaethau eraill fod wedi effeithio ar y risg a berir i'r cyhoedd, felly mae'n bosib mai nid adolygiad un asiantaeth yw'r dull mwyaf effeithiol o adnabod dysgu yn yr achosion hyn chwaith.

"*Pan mae ymddiriedaeth broffesiynol a pharch ymysg cydweithwyr, fel gydag aelodau o fwrdd y YOT, mae rhai yn dechrau teimlo'n hunanfodlon. Nid yw Adroddiadau Dysgu Hanfodol yn cael eu 'nodio drwodd'; ond nid yw aelodau'r bwrdd yn ymwybodol o holl fanylion yr achos neu ddigwyddiad.*" Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOT.

## Rôl yr arolygiaeth a chôd ymarfer

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar Rôl a Chod Ymarfer Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar ein gwefan:

**http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/**

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*1st Floor, Manchester Civil Justice Centre*
*1 Bridge Street West*
*Manceinion, M3 3FX*